



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Llandegfan
Llandegfan
Porthaethwy
Ynys Môn
LL59 5UW**

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2010

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



**INVESTORS | BUDDSODDWYR
IN PEOPLE | MEWN POBL**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2010: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Ysgol Llandegfan

Mae Ysgol Llandegfan wedi'i lleoli ym mhentref Llandegfan, sydd yn agos i dref Porthaethwy yn Ynys Môn. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig o amgylch. Yn ôl yr ysgol, daw'r disgyblion o gefndir sydd yn bennaf ffyniannus; tua dau y cant o'r disgyblion sydd â hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim.

Adeg yr arolygiad, roedd 136 o ddisgyblion ar y gofrestr o gymharu â 145 adeg yr arolygiad diwethaf yn 2004. Mae gan dri disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac mae 26 arall ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yr ysgol. Mae uned ADY i wasanaethu'r ardal hefyd wedi'i lleoli yn yr ysgol.

Daw tua 20% o'r disgyblion o gartrefi ble mae'r Gymraeg yn brif iaith ond amcangyfrifir bod tua 75% yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol erbyn diwedd cyfnod allweddol dau (CA2). Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y derbyn ac am y ddau dymor cyntaf ym mlwyddyn un (B1); yn dilyn hynny addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o gael y disgyblion yn ddwyieithog erbyn diwedd CA2.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2004. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Medi 2005.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2009-2010 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llandegfan yw £3197 sy'n cymharu gydag uchafswm o £15158 ac isafswm o £2685 ar gyfer ysgolion cynradd yn Ynys Môn. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 36ain uchaf o'r 52 ysgol gynradd yn Ynys Môn.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- ar y cyfan mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda; a
- caiff iechyd a lles y disgyblion ei hyrwyddo'n dda ac maent yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol.

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd:

- mae'r ysgol yn adnabod a blaenoriaethu meysydd i'w gwella'n effeithiol ac mae cynllunio datblygiad yn elfen o'i bywyd gwaith;
- mae arweinwyr a rheolwyr yr ysgol yn cyfleu disgwyliadau uchel a hyrwyddo ethos cynhaliol a chefnogol; a
- gwelwyd tuedd o gynnydd yng nghanlyniadau'r ysgol dros gyfnod.

Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r ysgol:

- A1 sicrhau bod y cynnydd a welwyd mewn safonau dros y cyfnod diweddar yn parhau;
- A2 ddatblygu'r drefn hunan arfarnu i gynnwys adolygiad trylwyr o bob agwedd ar fywyd yr ysgol a'u heffaith ar safonau cyflawni'r disgyblion;
- A3 wella ansawdd marcio'r athrawon a sicrhau cysondeb yn y defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu; a
- A4 mireinio'r cynllunio er mwyn sicrhau cyfleoedd i ddatblygu holl fedrau'r disgyblion yn systematig ar draws yr ysgol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol un (CA1) yn dda. Llwyddodd pob plentyn i gyflawni'r nod disgwylidig o lefel dau yn y dangosydd pynciau craidd yn 2010 ac mae hyn yn well na chyfartaledd gweddill yr ysgolion yn rheulu'r ysgol. Mae'n well hefyd na'r perfformiad cyfartalog gan ysgolion o fewn yr awdurdod lleol (ALI) ac ar draws Cymru ac yn rhoi'r ysgol yn y chwarter uchaf yn ei theulu. Roedd perfformiad yr ysgol yn y pynciau craidd unigol yn dda gyda phob plentyn eto yn cyflawni'r lefel disgwylidig. Llwyddodd dros 50% hefyd i gyflawni lefelau uwch o 3+ mewn mathemateg ac yn y Gymraeg gan osod yr ysgol yr uchaf a'r ail-uchaf o'r deg ysgol yn ei theulu yn y pynciau yma. Roedd perfformiad 2010 yn welliant sylweddol ar berfformiad y ddwy flynedd flaenorol.

Gwelwyd cynnydd yn y dangosydd pynciau craidd ar gyfer CA2 dros y pedair blynedd diwethaf ac mae perfformiad 2010 yn cadarnhau'r duedd. Mae targedau'r ysgol yn rhagweld parhad pellach yn y duedd y flwyddyn nesaf. Mae'r perfformiad yn gosod yr ysgol yn uwch na chyfartaledd ysgolion eraill yr awdurdod ac ysgolion Cymru ac yn chweched o'r deg ysgol yn y teulu. Pan gymherir canlyniadau'r ysgol ag ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim mae'r ysgol yn y trydydd chwarter ar gyfer y dangosydd pynciau craidd. Mae yn y trydydd chwarter hefyd yn y pynciau unigol ac eithrio gwyddoniaeth ble mae yn y pedwerydd chwarter. Yn 2010 cyflawnodd 40% o'r disgyblion perthnasol lefelau uwch yn y Saesneg ac mae'r duedd mewn cymhariaeth ag ysgolion y teulu yn gyson uwch. Bu'r duedd yn y Gymraeg mewn cymhariaeth ag ysgolion y teulu yn gyson dros bedair blynedd.

Yng nghyfnod allweddol un nid oedd gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched sy'n cyrraedd y lefel disgwylidig yn y Gymraeg. Pan ystyrir y plant sy'n cyrraedd lefelau uwch gwelir gwahaniaethau rhwng perfformiad bechgyn a merched sy'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ym mhob pwnc craidd. Mae perfformiad bechgyn yn well mewn mathemateg a'r genethod yn well mewn gwyddoniaeth ac yn y Gymraeg. Fodd bynnag, yng nghyd-destun y niferoedd perthnasol ni ystyrir y gwahaniaethau yma yn rhai arwyddocaol. Yng nghyfnod allweddol dau mae perfformiad genethod ychydig yn well na'r bechgyn yn y Saesneg gan adlewyrchu'r duedd genedlaethol. Yn y Gymraeg mae perfformiad bechgyn yn well na'r genethod a pherfformiad genethod yn well na bechgyn mewn gwyddoniaeth. Yn y ddau bwnc mae'r tueddiadau yn uwch na welir ar lefel genedlaethol ond ni ystyrir hwy yn arwyddocaol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac yn cyflawni safonau sydd yn briodol i'w hoed a'u gallu. Ar y cyfan, mae'r disgyblion yn mwynhau eu tasgau ac yn cyd-weithio'n hapus ac effeithiol gyda'u cyfoedion.

Mae medrau cyfathrebu mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n effeithiol yn y Gymraeg ar draws yr ysgol a hefyd yn y Saesneg yn CA2. Mae medrau llythrennedd y mwyafrif yn dda mewn darllen ac ysgrifennu, gyda llawer yn medru ysgrifennu'n helaeth yn y ddwy iaith, gan ddefnyddio ystod eang o gyfryngau. Gwna'r mwyafrif gynnydd priodol hefyd mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a rhifedd. Golyga hynny bod gan bob un o'r disgyblion fynediad teilwng i'r cwricwlwm ehangach fel y bo'n briodol i'w hoed a'u gallu.

Erbyn diwedd CA1 gall y mwyafrif helaeth ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn weddol hyderus 'chwaeth beth fo'u cefndir ieithyddol wrth ddechrau yn yr ysgol.

Lles: Da

Mae gan yr holl ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at fyw a bwyta'n iach. Mae'r disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol ac yn hyderus bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn o fewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Mae'r disgyblion yn cael cyfle i roi mewnbwn i'r hyn y maent yn ei ddysgu ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu cyfranogiad. Mae eu gallu i gynnal canolbwyntio ac i ymgymryd â thasgau yn briodol. Mae'r disgyblion yn gwrtais iawn a pharchus â'i gilydd a gydag oedolion. Mae'r gyfradd presenoldeb, sef tua 94%, ychydig yn is na'r tair blynedd flaenorol.

Mae'r disgyblion yn cydweithio'n dda o fewn yr ysgol ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith.

Mae gan yr ysgol gyngor sy'n aeddfedu yn ei rol a phwyllgor eco gweithgar. Trwy'r grwpiau yma, mae disgyblion yn datblygu eu cyfraniad tuag at nifer o agweddau o fywyd ysgol, megis cynaliadwyedd a bwyta'n iach. Maent yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at waith elusennol yr ysgol. Ceir cyfarfodydd cyson sy'n caniatáu i ddisgyblion o bob ystod gallu i fynegi barn a chyfrannu at benderfyniadau a newidiadau yn yr ysgol. Fel disgyblion hŷn yr ysgol, mae holl ddisgyblion blwyddyn chwech (BI6) wedi ysgwyddo cyfrifoldebau swyddogion i hybu'r iaith Gymraeg a hyrwyddo ymddygiad da.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r cynlluniau gwaith yn gynhwysfawr ac wedi eu diweddarau yn sgil Cwricwlwm 2008 a chyflwyniad y Cyfnod Sylfaen. Darperir ystod eang o weithgareddau dysgu o fewn y cynlluniau hyn, sy'n bodloni anghenion y disgyblion. Defnyddir themâu yn effeithiol i gyflwyno'r cwricwlwm a dyrennir amser priodol er mwyn sicrhau cyflawniad. Cyflwynir gwersi Ffrangeg yn llwyddiannus i ddisgyblion blwyddyn chwech. Caiff y bechgyn a'r merched gyfleoedd cyfartal i gymryd rhan ym mhob weithgaredd. Caiff rhai disgyblion gyfle i weithio mewn grwpiau llai gyda chymorth arbenigol mewn sesiynau bore.

Cynllunnir cyfleoedd priodol yn y mwyafrif o'r gwersi er mwyn i'r disgyblion ddatblygu eu medrau mewn llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a TGCh. Golyga hyn bod y mwyafrif helaeth yn gallu defnyddio'r medrau hyn yn hyderus ar draws y cwricwlwm. Er hynny, ac eithrio mewn ysgrifennu, nid oes gweithdrefn mewn lle i sicrhau bod y medrau hyn i gyd yn cael eu cyflwyno'n systematig ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau cynnydd digonol ym medrau'r disgyblion.

Mae datblygu iaith Gymraeg yr holl ddisgyblion yn flaenoriaeth ar draws yr ysgol. Mae systemau llwyddiannus mewn lle er mwyn annog y disgyblion i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg e.e. ennill bathodyn "Cochyn y Ddraig". Mae mwyafrif y disgyblion hyn yn gwerthfawrogi manteision dysgu Cymraeg a dod yn fwyfwy dwyieithog. Mae'r ffordd y mae'r ysgol yn cyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig yn nodwedd gref o'i holl waith. Mae dealltwriaeth yr holl ddisgyblion o nodweddion diwylliannol, economaidd a hanesyddol Cymru yn datblygu'n briodol. Er mwyn cyfoethogi hyn, dethlir diwrnodau arbennig megis: Diwrnod Owain Glyndŵr, Santes Dwynwen, Gŵyl Dewi, a T Llew Jones.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn gryfder amlwg. Gwneir defnydd effeithiol o dir yr ysgol i dyfu llyisiau a denu gloynnod byw. Siarada'r disgyblion yn fyrlymus am y prosiectau hyn, a hyrwyddwyd gan bartneriaethau effeithiol â rhieni, y gymuned ac asiantaethau allanol. Gweithreda'r ysgol mewn modd cynaliadwy. Dan arweiniad Pwyllgor Eco gweithgar, mae ymrwymiad y disgyblion yn gryf i'r mesurau hyn. Mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag amgylchiadau, arferion a thraddodiadau gwahanol wledydd. Dangosant empathi at achosion da yn y trydydd byd drwy gasglu arian yn rheolaidd.

Addysgu: Da

Yn y gwersi mwyaf effeithiol, defnyddir adnoddau'n dda i gefnogi dysgu disgyblion. Mae cwestiynu treiddgar yn ymestyn dealltwriaeth disgyblion mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol ac mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion. Mae amrywiaeth o weithgareddau diddorol yn cael eu cynllunio i wella medrau'r disgyblion ac i ennyn eu diddordeb. Yn y lleiafrif o wersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw athrawon yn herio disgyblion yn ddigonol ac mae cyflymder y gwersi'n rhy araf. Mae'r cynlluniau ar gyfer gwersi yn glir ac mae defnydd effeithiol yn cael ei wneud o staff cymorth dysgu. Mae pob un o'r staff, gan gynnwys staff cymorth dysgu, yn modelu iaith yn dda ac yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn effeithiol i gadw bron pob disgybl ar y dasg dan sylw. Ar y cyfan mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda.

Mae'r athrawon yn dangos sensitifrwydd wrth siarad gyda'r disgyblion am ansawdd eu gwaith. Mae hyn yn rhoi syniadau ac anogaeth i ddisgyblion ar sut i wella. Llwydda'r athrawon i greu awyrgylch dysgu pwrpasol lle defnyddir canmoliaeth yn effeithiol i annog y disgyblion. Mae'r ffordd y mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn llai effeithiol gan nad yw bob amser yn dangos y ffordd iddynt wella'u gwaith. Mae'r disgyblion yn rhan o'r broses gosod targedau unigol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymdrech ac ymroddiad mewn gwersi.

Mae cyrhaeddiad disgyblion yn cael ei asesu'n rheolaidd ac mae'r canfyddiadau yn cael eu dadansoddi i olrhain cynnydd. Mae'r athrawon yn datblygu rhai strategaethau asesu ar gyfer dysgu ond anghyson yw eu defnydd ar draws yr ysgol.

Mae'r adroddiadau i rieni yn glir, yn llawn gwybodaeth ac yn amlinellu meysydd i'w gwella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles ei disgyblion yn dda. Cydlynir yr agweddau hyn gan strategaeth addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr. Mae gwasanaethau ysgol gyfan yn creu nawws Gristnogol briodol ac ethos myfyrgar. Ynddynt mae'r disgyblion yn canu'n frwd. Mae'r disgyblion yn casglu arian at lawer o achosion da.

Caiff iechyd a ffitrwydd y disgyblion eu hyrwyddo gan nifer o glybiau chwaraeon a siop ffrwythau dyddiol. Mae'r disgyblion yn derbyn cyfrifoldebau niferus ym mywyd yr ysgol. Ymfalchiant yn y dyletswyddau hyn ac maent yn eu perfformio'n gydwbodol ac effeithiol. Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'i chymuned leol ac yn cefnogi digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol lleol yn dda.

Mae sesiynau amser cylch yn caniatáu cyfleoedd da i ddisgyblion fynegi, rhannu a thrafod teimladau. Ategir hyn yn effeithiol gan "focs be sy'n bod" sy'n cynnig cyfle i ddisgyblion pob dosbarth fynegi pryderon yn gyfrinachol. Tystia'r disgyblion nad oes problemau bwlio. Mae'r disgyblion yn troi'n hyderus at athrawon, cynorthwywyr a staff ategol yr ysgol am gymorth ac arweiniad.

Gwneir defnydd priodol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol, yn cynnwys y gwasanaethau lles addysg, meddygol ac argyfwng. Mae gan yr ysgol bolisiau a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu.

Ceir darpariaeth gynlluniedig ar gyfer y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau a systemau effeithiol ar gyfer nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u gwaith. Mae'r cymorth yn cael ei gydlynu'n dda ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau allanol. Mae rhaglenni effeithiol ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion i gynorthwyo eu cynnydd. Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda ac fe gaiff cynlluniau addysg unigol eu harfarnu a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae gweithdrefnau adrodd yr ysgol yn bodloni gofynion statudol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles ei disgyblion yn dda. Cydlynir yr agweddau hyn gan strategaeth addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae staff ac adnoddau digonol ar gyfer cyflwyno pob agwedd o'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae dyluniad y prif adeilad yn anarferol. Enillodd wobrau pensaernïol pan godwyd ef gyntaf, ond nid yw mor hwylus ar gyfer dulliau addysgu presennol. Nid oes mynediad mewn cadair olwyn i rai o'r dosbarthiadau.

Manteisir yn effeithiol ar droedd eang yr ysgol i ddarparu ardaloedd addysg awyr agored, cynnal chwaraeon, dathlu amrywiaeth byd natur a thyfu llysiau. Gwneir defnydd rheolaidd o'r cae pêl droed gan y gymuned. Adnewyddwyd yr holl doiledau gan ymgorffori nifer o awgrymiadau'r Cyngor Ysgol. Mae arddangosfeydd lliwgar yn

creu awyrgylch ysgogol. Cedwir yr adeiladau mewn cyflwr da ac mae pob ardal yn lân a thaclus.

At ei gilydd mae polisïau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol. Gwerthfawroga'r ysgol gefndiroedd ieithyddol amrywiol y disgyblion a cheir rhaglen addysgol ac allgyrsiol sy'n gynhwysol i bawb. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yr ysgol ac amser cylch dosbarthiadau unigol yn darparu cyfleoedd addas i hybu'r meysydd yma. Mae disgyblion yr ysgol yn rhan o gynllun Llysgenhadon Comisiynydd Plant Cymru sy'n cyfrannu at eu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o hawliau plant ledled y byd. Mae hyn yn hyrwyddo medrau cymdeithasol a medrau bywyd y disgyblion yn dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth yn cyfleu ei weledigaeth drwy ystod o ddulliau sy'n cynnwys pennu cyfran o'r cyfarfodydd wythnosol staff i ganolbwyntio ar safonau. Mae'r rhain yn hybu dealltwriaeth pob aelod o'r staff o'u rôl a'u cyfrifoldebau wrth weithredu cynlluniau'r ysgol. Defnyddir ystod o ddata perthnasol i fonitro llwyddiant y strategaethau a fabwysiadwyd. Mae trefniadau datblygu proffesiynol yr ysgol yn darparu cyfleoedd i briodi anghenion datblygu staff unigol yn effeithiol ag amcanion strategol yr ysgol. Mae'r dirprwy yn ysgwyddo ystod o gyfrifoldebau arweiniol a rheolaethol sy'n cynnwys gweithredu fel cydlynnydd CA1 a chyd-lynu iaith a cherddoriaeth. Mae ei chyfraniad i arweinyddiaeth yr ysgol yn arwyddocaol. Mae arweinwyr a rheolwyr yr ysgol yn cyfleu disgwyliaid uchel a hyrwyddo ethos cynhaliol a chefnogol. Mae'r berthynas rhyngddynt ac aelodau eraill y staff wedi ei seilio ar gydweithio a gwerthfawrogi cyfraniad y naill a'r llall.

Mae corff llywodraethol yr ysgol yn ysgwyddo'i gyfrifoldebau'n effeithiol ac yn deall ei rôl. Mae'n derbyn adroddiadau am berfformiad diwedd cyfnodau ac yn ystyried deilliannau perthnasol megis gwahaniaethau rhwng perfformiad bechgyn a merched. Mae cyfraniad y corff llywodraethol i'r broses hunan arfarnu yn ysgogi gwelliannau yn y ddarpariaeth a hybu blaengaredd mewn datblygiadau cynaliadwy.

Sefydlwyd darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus gan sicrhau adnoddau addas a digonol a'u rheoli'n dda. Addaswyd rhannau o'r amgylchedd allanol yn effeithiol i hybu a hwyluso'r datblygiad. Mae egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn elfen ddatblygol o flaenoriaethau'r ysgol.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r ysgol yn adnabod meysydd i'w gwella yn effeithiol ac mae cynllunio datblygiad yn elfen o'i bywyd gwaith. Rhoddir ffocws ar adnabod blaenoriaethau sy'n cael eu hymgorffori yng nghynlluniau datblygu'r ysgol. Mae'r ystod gwybodaeth a ystyrir gan yr ysgol yn cynnwys data ar safonau gan gynnwys dadansoddiadau o dueddiadau dros gyfnod. Rhoddir sylw hefyd i dystiolaeth am ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Sefydlwyd trefniadau i ganfod barn rhieni/gofalwyr drwy holiaduron. Gwneir defnydd

effeithiol o adroddiadau monitro gwasanaeth addysg yr ALI a rhoddir ystyriaeth briodol i flaengaredd lleol a chenedlaethol. Rhoddwyd sylw priodol hefyd i argymhellion yr adroddiad diwethaf. Arweiniodd y prosesau yma at gynlluniau datblygu cytbwys a ddylanwadodd yn effeithiol ar ddeilliannau dros y ddwy flynedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hunan arfarnu wedi cynnwys adolygiad trylwyr diweddar o bob agwedd ar fywyd ysgol a sut mae'r rhain yn effeithio ar safonau cyflawni'r disgyblion.

Mae strwythurau rheoli'r ysgol yn sicrhau fod staff yn deall eu rôl. Mae'r ethos cydweithiol yn hybu cyfleoedd i drafod a blaenoriaethu'r materion sydd wedi eu hadnabod ar gyfer gwella. Mae'r cynlluniau datblygu yn cynnwys strategaethau priodol sy'n diffinio tasgau i'w cyflawni o fewn cyfnodau addas. Dyrennir cyfrifoldeb am gydlynu'r strategaethau a nodir y deilliannau y mae'r ysgol yn anelu atynt. Mae'r trefniadau wedi arwain at welliannau penodol mewn safonau ar draws y ddau gyfnod allweddol.

Mae diwylliant cynhaliol yr ysgol yn hybu cyfleoedd i'r staff elwa o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r gweithdrefnau yn cynnwys cylch gwerthuso sy'n arwain at nodau cytûn yn cwmpasu anghenion datblygu'r staff a gwelliannau'r ysgol. Sefydlwyd trefniadau arsylwi yn yr ystafell ddosbarth i gynnal datblygiad a rhannu arfer da. Mae'r ysgol yn cydweithio ag ysgol gyfagos ble datblygwyd rhwydweithiau effeithiol o arfer proffesiynol. Arweiniodd hyn at welliannau mewn cynllunio cwricwlaid a datblygiadau gwerthfawr mewn trefniadau ar gyfer lles plant. Mae ymglymiad yr ysgol mewn amrywiol rwydweithiau ar lefel y dalgyllch wedi adeiladu cynhwysedd ar gyfer gwelliant parhaus.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac eraill, gan gynnwys cysylltiadau trosglwyddo rhwng y cylch chwarae a'r ysgol, yn cyfrannu yn effeithiol at nodau'r ysgol. Mae'r trefniadau trosglwyddo ar gyfer y clwstwr o ysgolion a'r ysgol uwchradd yn galluogi'r disgyblion hŷn i baratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae cysylltiadau gydag asiantaethau arbennig wedi arwain at wella lles grwpiau o ddisgyblion.

Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion. Mae'r cysylltiad agos gydag Uned y Glannau yn elwa'r disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn rheoli'r adnoddau a ddyrennir i'r ysgol yn dda gan sicrhau trefniadau staffio priodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Yn gyffredinol mae cyfatebiaeth dda rhwng blaenoriaethau'r ysgol a phenderfyniadau gwariant. Mae trefniadau addas ar gyfer gwerthuso a rheoli perfformiad yn eu lle a gwneir defnydd effeithiol o'r amser cynllunio, paratoi ac asesu sydd ar gael i'r athrawon. Cynllunnir defnydd priodol o gymorthyddion dosbarth ac mae eu cyfraniad yn y cyfnod sylfaen ac yn cefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gwella safonau.

Mae prosesau monitro'r gyllideb yn dda gan roi ystyriaeth berthnasol i adroddiadau cyllidol misol a ddarperir gan wasanaeth addysg yr awdurdod lleol.

Yn gyffredinol mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion ac yn ei defnydd o gyllid.

Atodiad 1

Ymatebion i'r holiadur i rieni/gwarcheidwad

Dychwelwyd 32% o holiaduron y rhieni ac mae pob un ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol. Dywedant fod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae bron pob un hefyd yn credu fod ymddygiad y disgyblion yn dda, fod y disgyblion yn cael eu parchu, eu trin yn deg a'u bod yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae pob rhiant yn teimlo fod yr addysgu yn dda a bron pob un yn teimlo fod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae ychydig o'r rhieni yn teimlo nad ydynt yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant ac nad yw'r gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae pob rhiant o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda neu yn dda iawn.

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd bron bob un o ddysgwyr CA2 yr holiadur a siaradodd y tîm â'r disgyblion yn ystod yr arolygiad. Mae pob un yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn ymdrin â bwlio'n dda. Mae bron pob un yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni neu os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Mae pob un o'r dysgwyr o'r farn bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac mae bron pob un yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae ychydig yn teimlo nad yw pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio ac mae nifer tebyg yn teimlo fod ymddygiad plant yn amharu ar eu gallu i wneud eu gwaith.

Atodiad 2

Y tîm arolygu

Iwan Roberts	Arolygydd Cofnodol
Huw Watkins	Arolygydd Tîm
Catherine Evans	Cysgod
Richard John Roberts	Arolygydd Lleyg
Kevin Neil Williams	Arolygydd Cymheiriaid
Richard Jones	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11